

Penawdau Cymraeg ar gyfer Gweminar yr un sydd yn cael ei arfarnu

I ddechrau pethau, mae systemau MARS yn cael eu darparu gan yr uned cymorth ailwerthuso.

Mae gennym y gallu i gysylltu â thîm y ddesg wasanaeth.

Felly mae gennym ddesg wasanaeth sy'n gweithredu bum diwrnod yr wythnos. Ar sail e-bost yn unig ar hyn o bryd.

Ac os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth ddechrau defnyddio'r system,

Gallwch ddefnyddio'r botwm cysylltu â ni, sy'n ein galluogi i gael rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi, rhowch adborth ar y broblem sydd gennych.

Mae'n cael ei anfon yn awtomatig i'n mewnlwch, sef prif fewnlwch MARC a ddarperir gan AaGIC.

Felly o fewn hwnnw, rwy'n mynd i'w gau i lawr yn awr.

Ond pe byddai gennych broblemau fe fyddech chi'n rhoi'r broblem yno, yna mae sŵn ping yn ein mewnlwch ni pan mae'n cyrraedd,

a byddwn yn ymateb o fewn 24 awr fel arfer, ond nid yn cynnwys penwythnosau wrth reswm.

Felly byddwn yn mynd drwy'r system arfarnu.

Felly dyma'r prif ddangosfwrdd y mae'n mynd iddo pan fyddwch chi'n mewngofnodi i rôl y meddyg.

Felly er mwyn dangos i chi, mae'n debyg mai'r cam cyntaf yr hoffem ni annog defnyddwyr i'w wneud yw llenwi'r adran fy manylion, sef y pedwerydd tab i lawr.

Mae fy manylion yn eithaf hunan-esboniadol. Dyma ble fyddech chi'n rhoi eich cyfeiriad e-bost.

Llenwi eich teitl ac ati, ychwanegwch eich gwybodaeth gysylltu a lleoliad arbenigedd.

Y math yna o beth. Mae'n eithaf pwysig bod y wybodaeth am ble rydych chi'n gweithio yn cael ei diweddarau'n flynyddol.

Mae'n rhan o'r cytundeb i sicrhau eich bod chi'n cadw'ch manylion personol a phroffesiynol yn gyfredol bob blwyddyn. Ac felly, cewch eich annog i wneud hyn bob blwyddyn.

Os ydych yn ychwanegu'ch ysbyty, fe welwch fy mod i wedi ychwanegu uned IVF Caerdydd a'r Fro yma.

Os ydych yn ychwanegu ysbyty arall, efallai eich bod chi'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad.

Neu efallai eich bod yn rhan o'r DVLA.

Fe fyddech chi'n dewis bocsys y gwymplen ac yna byddech yn cael eich annog i gwblhau'r dyddiadau pan wnaethoch gychwyn.

Os mai dyma'ch swydd gyfredol o hyd,

rydych yn ei adael yn benagored a gallwch ychwanegu hynny ac yna tynnu ysbytai blaenorol os nad ydych chi'n gweithio yn yr ardal honno mwyach.

Neu gallwch eu newid o gwmpas. Cael mwy nag un.

Cael hwn fel eich prif un, er enghraifft. Yna gallwch gadw un arall yno neu ei ddileu.

A beth sy'n digwydd pe baech chi'n ei ddileu? Mae'n mynd i'r archif

Ar yr ail dab.

Iawn fel y dywedais i, fy manylion.

Rydym yn disgwyl i chi ddiweddarau'r rhain bob blwyddyn.

Yr ail dab ar draws yw gweithgareddau.

Testun rhydd yw hwn, tri bocs testun rhydd y gallwch eu llenwi â gwybodaeth os oes gennych chi weithgareddau ychwanegol eraill.

Felly os ydych chi ar alwad gallwch nodi'r wybodaeth.

Mae hyn i gyd yn bwysig i roi gwybodaeth i'ch arfarnwr, i roi rhywfaint o gyd-destun i'ch gwaith, yr hyn rydych chi'n ei wneud.

Felly bydd ganddo syniad da o beth yw eich rôl cyn cyfarfod â chi hyd yn oed os nad yw'n eich nabod.

Eto, bocsys testun pellach i'w llenwi. Os dymunwch.

Ac eto, yr un peth eto, mae'r trydydd bocs yn focs testun rhydd ac yna'r trydydd tab ar draws yn un ar gyfer cynlluniau swyddi

Felly, yn fwy felly, byddai gan y rhai ym maes gofal eilaidd gynlluniau swyddi.

Llun i Sul. Yna gallwch eu llenwi fel y dymunwch.

Ac eto, mae'r wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth i'ch arfarnwr, yn rhoi syniad iddo.

Gallwch lanlwytho'ch cynllun swydd hefyd os hoffech chi, fel atodiad i arbed amser i chi.

Felly wnawn ni symud ymlaen o *my details*, dwi am fynd i'r tab cyntaf i lawr, fy arfarniadau o dan rôl meddyg.

Felly dyma, fel y dywedais, yw'r prif ddangosfwrdd y byddwch chi'n ei weld wrth fewngofnodi

Mae'r dangosfwrdd yn eich ysgogi i fynd i unrhyw le rydych chi ei angen.

Felly, er enghraifft, os yw'n las, mae'n golygu bod angen i chi wneud rhywbeth, ei weithredu.

Felly dyma'r bocs gwybodaeth arfarniad yma, eich dewis o arfarnwr. Felly rydych yn dewis eich arfarnwr a'ch datganiadau. Mae'r ddau ganlynol yn llwyd gan nad ydynt yn barod i'w gweithredu eto.

Felly y cyntaf yw gwybodaeth arfarnwr, mae'r system ar Mars yn gweithio fel bod gennych chi chwarteri.

Felly'r syniad yw gwneud proses yr arfarniad yn haws.

Rydym wedi rhannu'r holl feddygon yn chwarteri ac yn annog meddygon i gael eu harfarniadau o fewn hynny.

Felly, er enghraifft, mae un fi allan o chwarter heddiw. Rwy'n rhedeg yn hwyr.

A byddai'r system yn eich hysbysu pe byddech chi'n rhedeg yn hwyr ac wedi mynd drosodd.

Felly yn dilyn hynny byddai'r chwarter yn eich annog chi a'ch ysgogi chi i archebu'ch arfarniad a

gydol y system bydd eich arfarnwr yn cael gwybod a bydd y system yn mynd ar ei ôl gydol y broses.

Mae'r allwedd isod yn dweud wrthy'ch bod yna gamau gweithredu.

Mae gennych chi eicon pen, gallwch gymryd camau dilynol.

Yna byddwch chi'n gweld gydol gweminar heddiw bod y tabiau – y bocsys yn troi'n wyrdd wrth i ni gwblhau'r camau gweithredu.

Felly'n ddelfrydol, rydym yn annog meddygon i gwblhau eu gwyboath arfarnu gydol y flwyddyn.

Mae'n ffordd o storio'ch dysgu a'ch DPP ac unrhyw adborth, myfyrdodau, eitemau CDP, ac ati.

Mae'n agored cyn gynted ag y bydd eich arfarniad wedi'i gwblhau am y flwyddyn, bydd eich systemau'n barod i fynd a gallwch roi mwy o wybodaeth.

Felly rwyf wedi llenwi dau o'r templedi hyn i ddechrau.

Felly os byddech chi am ychwanegu templed newydd, fe fyddech chi'n clicio ar y botwm gwyrdd, ychwanegu gwybodaeth, ac yn dewis categori i'w chynnwys ynddo.

Felly, er enghraifft, mae gennym ni adnodd adborth yma y gallwch fewngludo adborth eich cydweithwyr a'ch cleifion.

Felly, heddiw, dyma adborth y claf. I'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn y DVLA.

Mae gennym ni system orbit 360.

System sydd nawr yn adnodd adborth cleifion a chydweithwyr mewnol sydd ar gael i bob meddyg â thrwydded i ymarfer yng Nghymru. Rwy'n gwybod DVLA bod gennych chi adnodd adborth ar wahân i gydweithwyr a chleifion.

Fodd bynnag, gellir ychwanegu unrhyw wybodaeth, unrhyw PDF, unrhyw adborth arall gyda sylwadau yma.

Gallwch ychwanegu ffeil at y mwyafrif o'n cofnodion arfarnu trwy ei lanlwytho o'ch cyfrifiadur personol,

A gallwch ychwanegu priodoleddau a bennwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer pob arfarniad hefyd.

Felly gallwch ychwanegu gwahanol briodoleddau i bob darn o dystiolaeth a lanlwythwch. Ar waelod pob cofnod mae cyfle i gadw'r hyn rydych wedi'i wneud.

Felly cofiwch gadw bob amser wrth gofnodi. Dyw'r system ddim yn cadw'r wybodaeth yn awtomatig. Mae'n rhaid i chi gadw drwy ddefnyddio'r botwm gwyrdd ar y gwaelod.

Iawn, felly pan fyddwch wedi dechrau llenwi'ch gwybodaeth arfarnu byddwch yn gallu golygu gyda'r eicon glas yma.

Ac fel y gallwch weld, rwyf wedi llenwi hwn o'r blaen. A gallwch chi lanlwytho'ch dogfennau personol chi.

Ac rydym yn annog y dogfennau mwy cyffredin fel rhai Excel a Word.

Mae yna derfyn i ffeiliau, y byddaf yn ei drafod yn fyr yn ddiweddarach. Mae gennych chi gyfleuster storio eithaf sylweddol o tua 200 megabeit.

Felly dim ffeiliau Photoshop os gwelwch chi'n dda. Gan eu bod yn ffeiliau eithaf mawr.

Felly nid yw'r system yn hoffi unrhyw beth anarferol.

Iawn, felly, er enghraifft, mae gennym ni un DPP yma yr wyf wedi dechrau ei llenwi felly gallwch weld fy mod wedi dechrau llenwi'r bocsys testun yma.

Mae gan bob bocs deitl ac mae rhai yn cynnwys gwybodaeth i'ch annog beth i'w llenwi wrth hofran dros y teitl.

Fellydim ond anogwyr yma gyda'r eiconau du.

Gallwch ychwanegu ffeil ychwanegol wrth gwrs. Ac fel y dywedais, bydd y system yn eich galluogi i lanlwytho'r ffeiliau mwyaf cyffredin.

Ac fe wnaf i ddewis unrhyw ffeil at y diben hwn, a gallwch weld ei bod yn lanlwytho i'm cyfrif ac yna mae'n rhaid i chi ei hychwanegu.

Iawn a chofiwch roi teitl.

Iawn ac eto, cadwch y cyfan yn y gwaelod. Yna bydd gennych chi hyd at wythnos cyn dyddiad eich arfarniad i fewnbynnu unrhyw wybodaeth, a bryd hynny byddwch yn cael ei cloi allan o'ch cyfrif.

Felly gallwch weld bod gennyf nifer o gofnodion yno ac yna dilyn y tab nesaf ymlaen.

Mae eich adran cyfyngiadau gennym ni. Felly eto, rwyf wedi llenwi cwpl o gyfyngiadau yma er mwyn ychwanegu cyfyngiad.

Rydych yn clicio eto ar y bocs gwyrdd a gallwch chwilio yma neu glicio ar y botymau hyn, math o gyfleuster coeden yma.

Ac mae gennym ni Covid 19. Eitem newydd ar y goeden hon.

A gallwch glicio ar y bocsys a ddewiswyd ac yna byddant yn llenwi'r ochr chwith.

Yna, gallwch ehangu hyn os ydych yn dymuno, gallwch glicio ar y botwm nodyn glas ac ychwanegu.

Eto, mae wedi'i osod i chi.

Mae gennych chi eich cyfyngiadau personol, cyfyngiadau'r ysbyty neu wasanaeth.

Eto, bocsys testun rhydd ac eto, ar yr ochr dde a'r ochr chwith, mae'n goeden gwymplen arall.

Yna'r trydydd tab ar draws, dealltwriaeth a myfyrdodau. Mae hwn yn faes mwy myfyriol sy'n eich annog, yn y bocs cyntaf i

adolygu'r diwrnod cynnydd dros y flwyddyn arfarnu ddiwethaf.

Eto, bocs gwyrdd os hoffech ddiwygio'r testun hwn.

Yna cadwch unrhyw ddiwygiadau rydych wedi'u gwneud. Yr un nesaf i lawr, anghenion datblygu pellach.

H.y. Amser a neilltuir ar gyfer DPP. Yna ymhellach i lawr, mae gennym gynllun mwy hirdymor sef y CDP.

Felly mae hyn yn edrych ymlaen, i'r dyfodol am rywbeth y mae gennych chi ddiddordeb ei gyflawni yn y dyfodol.

Felly yn yr enghraifft hon, os wnewch chi wneud yr eicon glas,

Rwyf i wedi rhoi fy mod am fod yn arfarnwr yn y pen draw. Mae gen i ddiddordeb yn y maes hwn ac rwy'n edrych allan amdano,

pan ddaw'r swydd ar gael. Felly, eto, gallwch roi sawl cofnod yno.

Pe baech chi'n dymuno. Y pedwerydd un ar draws.

Mae gennym ni CDP cyfredol. Nawr, pe byddai gennych arfarniad blaenorol ar Mars, dyma ble

y byddech yn gallu edrych ar beth oeddech chi am ei wneud, beth y cytunwyd arno ar gyfer y 12 mis diwethaf.

A dwi am neidio i rôl y meddyg i ddangos sut fyddai hyn yn edrych. Felly ymddiheuriadau am newid sgriniau yma.

Felly os byddai gennych arfarniad blaenorol ar Mars, byddai gennych destun yma gyda botwm i ddiweddarau'r statws.

Byddai hyn yn datgan wedyn ar gyfer eich arfarniad nesaf a ydych wedi cyflawni'ch eitemau CDP neu beidio.

Byddai'r bocs yma'n ymddangos yma.

Yna gallwch ddatgan a ydych wedi'u cyflawni'n llawn, yn rhannol neu heb wneud o gwbl ac a oes yna dystiolaeth yn eich ffolder gyfredol os yw hynny'n gwneud synnwyr

ac yna mae'n eich galluogi i gau'r ddolen ar yr hyn y gwnaethoch ei gytuno ar arfarniad blaenorol y llynedd.

Iawn, gadewch i ni neidio yn ôl i fy rôl MARS. Y pumed tab ar draws yw'r adran datganiadau.

Felly dyma restr o ddatganiadau blynyddol sydd angen i chi eu gwneud bob blwyddyn yn cwmpasu nifer o feysydd gwahanol.

Felly rwyf wedi cytuno ar ddau. Ond mae angen i chi nodi pob un cyn y gallwch chi gwblhau'ch arfarniad am y flwyddyn.

Felly'r cyntaf yw eich manylion proffesiynol personol.

Yn y bôn, dweud bod eich manylion yn gyfredol ac y dylai'ch arfarniad gwmpasu'ch holl ymarfer.

Felly waeth a oes gennych sawl rôl, dylech ddod â'r holl wybodaeth honno i un arfarniad i'w thrafod gyda'ch arfarnwr.

Felly i gytuno ar hwnnw a'r nesaf i lawr yw cytuno ar ymarfer meddygol da.

Felly mae'n amlwg bod yna sawl darn o destun i'w darllen, mae'ch datganiadau uniondeb gennych chi.

Felly os ydych chi'n anghytuno, mae unrhyw un o'r adrannau hyn mae yn eich annog i gofnodi hynny fel rhywbeth y mae angen i chi ei drafod yn eich arfarniad.

Ac felly, gallwch ddatgan ym mha faes y mae'r cofnod hwn

pe bai gennych rywbeth i'w gyflwyno yn eich arfarniad. Sy'n anghytuno â'r datganiadau hyn.

Felly iechyd eto. O ran yr arfarniad hwn.

Dwi am roi un negyddol i mewn i weld sut fyddai hynny'n gweithio a'r holl rai eraill dwi wedi'u cwblhau cyn gweminar heddiw.

Ac er gwybodaeth. Mae'r un diogelu yn mynd yn ddiodyn i heb ei gwblhau a'r rôl hyfforddiant –

Mae'r maes hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, felly bydd yn newid yn fuan.

Os oes gennych rôl hyfforddi. Iawn ac yna.

Cofiwch gadw'r datganiadau yma.

Iawn. Gadewch i ni ddychwelyd at wybodaeth yr arfarniad, os wnewch chi agor y wybodaeth hon.

Gallwch lawrlwytho unrhyw un o'ch cofnodion a gellir lawrlwytho eich holl arfarniadau fel PDF wedyn pe dymunech.

A'r cam nesaf rydym yn mynd i edrych arno yw'r dudalen cynnydd ailddilysu, eto ar y trydydd tab i lawr.

Felly y dudalen cynnydd ailddilysu sy'n datgan, yn anffodus, nad oes gen i un yma gan nad ydw i'n feddyg.

Ond oes gennych chi ddyddiad ar y gorwel, byddai'n ymddangos ar yr ochr dde yma.

O dan y bocs hanes ailddilysu byddai unrhyw gylchoedd blaenorol a allai fod gennych yn ymddangos yn y colofnau yma.

Fe ddangosaf hyn i chi'n gyflym yn ein canllaw defnyddiwr yma.

Felly eto, dyma sut fyddai'r dyddiad yn edrych yn y gornel dde uchaf.

Os ydych wedi'ch ailddilysu fwy nag unwaith bydd gennych ddyddiadau ailddilysu blaenorol.

Yna, os oes gennych chi arfarniadau blaenorol ar y system fe welwch system tebyg i golofnau yma a fyddai'n dangos y gwahanol agweddau

ar gynnydd eich arfarniad gyda'r gwahanol feysydd rydych wedi'u cwblhau wedi'u nodi mewn gwyrdd.

Ac yna pan mae hyn yn swyddogaeth fyw gallwch weld crynodeb o'ch arfarniad drwy'r eiconau glas hyn yma.

Felly mae'ch holl wybodaeth flaenorol ar gael ar PDF ar y dudalen hon gyda'ch dyddiadau blaenorol.

Fel y gwelwch, rwyf wedi gwneud un neu ddau, rydym wedi cwblhau'r datganiad. Mae hwnnw wedi troi'n wyrdd ac mae cwmpas y gwaith wedi troi'n wyrdd.

Hefyd, eich arfarnwr sy'n cwblhau'r adrannau hyn yn bennaf.

Ar ôl cael eich trafodaeth arfarnu fe fyddai'n gwneud y datganiadau hyn a byddai'r rhan fwyaf o'r eiconau'n troi i'r gwyrdd priodol.

Neu os oes angen rhagor o waith, bydd yn troi'n lliw oren gydag eicon oren bychan, fel y gwelwch yma.

Iawn. Felly os ga i ddychwelyd i fy arfarniadau.

Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen y dangosfwrdd. Yma byddaf yn dangos i chi sut i ddewis arfarnwr.

Os cliciwch chi ar yr eicon yma byddwch yn mynd i restr o arfarnwyr yn eich ardal.

Ac rydym yn annog ein harfarnwyr i gwblhau bywgraffiad.

Felly rhywfaint o wybodaeth am hyn Yr arfarnwr a'i argaeledd, er enghraifft, mae Jo yn profi.

Dyma fi mewn bywyd arall. Os gliciwch chi ar y swigen siarad mae'n rhoi ychydig o wybodaeth i chi am yr arfarnwr, pa ddyddiau fyddent ar gael, ble mae'n gweithio ac unrhyw beth arall sy'n eithaf perthnasol i chi.

Ac os ydych chi'n clicio ar yr eicon gallwch weld efallai na fydd ar gael am sawl mis o bosibl.

Iawn, felly, er enghraifft, dwi am ddewis un o'r rhain.

Yna mae'r system yn eich annog i ddewis tri arfarnwr i'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn adnabod eich arfarnwyr o bosibl.

Dwi ddim yn gwybod. Efallai eich bod wedi cytuno i hynny cyn defnyddio'r system. Efallai ddim.

Felly mae'n gadael i chi gael mwy o ddewis. Yn eich annog i gael dau.

Yna gallwch weld eu bod wedi'u llenwi ar yr ochr dde.

Yna mae'n eich annog, yn dilyn hynny, i ddewis mis neu gallwch ddileu'ch arfarnwyr fel y dymunwch cyn cyflwyno.

Fel y gwelaf, dwi allan o'r chwarter.

Felly dwi am drïo ei gwblhau cyn gynted â phosibl a chyflwyno fy newisiadau yn y botwm gwyrdd yma.

Ac mae'n eich annog, mae yna lawer o brosesau yn y system i sicrhau eich bod chi'n hapus, rydych chi'n siŵr eich bod chi am wneud y dewisiadau hynny ac ymrwymo. Yna mae'n mynd â chi'n awtomatig yn ôl i'ch tudalen a gallwch weld bod y broses ar waith.

Cytuno ar y rheiny. A bydd y system yn eich hysbysu pan fydd eich dewis cyntaf o arfarnwr yn eich derbyn neu'ch gwrthod.

Os cewch eich gwrthod gan eich un cyntaf

byddai'n awtomatig yn codi Gareth fel fy ail un ac ati

Felly does dim byd y mae angen i chi ei wneud o ran cymell y system i fynd o'r ail i'r trydydd.

Eto, gallwch ailosod y rhain cyn cytuno ar ddyddiad pe dymunech chi?

Ac eto, gallwch weld bod y trydydd bocs yma o dan datganiadau wedi troi'n wyrdd,

gan fy mod wedi cwblhau rheiny a gallwch weld y bocs statws oddi tano hefyd

Dim ond un tab i roi gwybod amdano i chi yma.

Ar ôl i chi gwblhau arfarniad ar MARS, gallwch weld eich arfarniad blaenorol, fel y dywedais eisoes.

Felly dros amser, rydych yn datblygu, bydd gennych restr o'r rhain, un am bob blwyddyn a byddwch yn gallu lawrlwytho'r crynodeb hwnnw mewn PDF ac edrych arno'n fanwl.

Iawn. Felly dwi am newid cyfrifon nawr.

Cyn gwneud hynny, dwi am ddangos un peth arall i chi yn yr ardal hon. Yr ardal ffeiliau.

Dwi wedi cyfeirio ati eisoes. Mae ganddi derfyn o ddau gan megabeit, felly gallwch weld fy mod ond wedi defnyddio tua 203/204

cilobeit o'm cwota. Felly does dim problem.

Nid yw ar y coch. Ond mae yna feddygon yn cysylltu â ni i ddweud eu bod yn cael trafferth lanlwytho dogfennau.

Rydym yn gweld bod ffeiliau PowerPoint yn tueddu i gymryd llawer o le.

Felly os ydych chi efallai yn lanlwytho'r cyflwyniad rydych wedi'i ddefnyddio ar gyfer rhyw fath o waith clinigol neu addysgu, gallant fod yn ffeiliau cymharol fawr.

Felly byddwch yn ymwybodol o hynny a gallwch newid PowerPoint i fod yn PDF a'i wneud yn llawer llai.

Ac eto, dyma ble mae'ch ffeiliau wedi'u rhestru. Yna gallwch eu dileu

unwaith y bydd eich arfarniad wedi'i gwblhau, fel y gallwch fynd yn ôl ac edrych ar hwn.

A thros y blynyddoedd, bydd hyn yn cronni. Felly o ran bod yn ymwybodol, os ydych chi'n cael trafferth lanlwytho fe fyddwn i'n gwirio'r dudalen hon i ddechrau.

Iawn. Dwi am newid cyfrifon nawr i fy nghyfrif ffug.

Felly dyma gyfrif arall sydd gen i. Yma dwi wedi ychwanegu cyfarfod eisoes ac wedi gwneud cais.

Gallwch weld bod y cyfnod clo wedi mynd yn goch gan mai dyddiad heddiw a welwn ni.

Ac felly. Mae'r cyfnod clo wedi mynd heibio.

Fel y dywedais, wythnos i lanlwytho'ch gwybodaeth.

Ar ôl yr wythnos honno rydych wedi'ch cloi allan o'ch cyfrif. Mae hyn yn rhoi'r gallu i'r arfarnwr gael golwg dda ar eich deunydd arfarnu,

eich cyngori efallai os oes rhywbeth ar goll nad ydych wedi'i gynnwys a'i alluogi

i gael golwg drylwyr ar eich gwybodaeth arfarnu a pharatoi ar ei gyfer.

Ac eto mae hyn – gallwch weld bod y canllaw wedi symud ymlaen.

Felly mae gennych chi wahanol diciau oren a gwyrdd wrth i ni fynd ymlaen.

Iawn, dwi am fynd nôl i fy arfarniadau ac

Ie iawn, dwi am ddangos i chi sut i dderbyn cyfarfod arfarnu. Felly cliciwch ar y botwm, mae'r dyddiad yno, yr 8fed o'r 9fed a heddiw yw hynny.

Yn amlwg byddai hyn ychydig o wythnosau i'r dyfodol. Cliciwch ar y botwm yma.

Ydych chi'n siŵr eich bod am dderbyn y dyddiad a ddewisiwyd. Ydych. Yna bydd y system yn ei newid i wyrdd.

A gallwch weld rwy'n dal dan glo. Ond mae dyddiad y cyfarfod arfarnu wedi'i bennu.

Mae hyn eto yn hysbysu'ch tîm aiddilysu bod gennych chi gyfarfod arfarnu ac felly gallwch fwrw ymlaen â'r cyfarfod.

Fel y dywedais, roeddem am gwblhau'r cylch fel y gallem esgus bod y trafodaethau arfarnu wedi'u cwblhau.

Felly unwaith y byddwch wedi cael eich holl wybodaeth a bod eich cyfrifon wedi'u cloi,

byddech yn mynd ymlaen i gael eich cyfarfod arfarnu gyda'ch arfarnwr.

Weithiau bydd y wybodaeth gan yr arfarnwr ar ffurf copi caled neu gall gyfeirio ati ar y cyfrifiadur o'ch blaen chi.

Ar ôl cael eich cyfarfod arfarnu, eich trafodaeth,

byddech yn mynd i'ch cyfrif ac yn darllen gwybodaeth yr arfarniad ac yn penderfynu i gytuno ar y crynodeb ai peidio.

Rwy'n gwybod bod pethau ychydig yn wahanol i'r rhai ohonoch chi sydd yn y DVLA. Felly dwi'n gwybod bod eich arfarnwyr yn dod o'r tu allan i Gymru a bod gennych chi broses wahanol.

Ond mae hynny'n iawn. Yr hyn yr ydym yn dueddol o'i wneud yw, os ydych chi'n ein hysbysu pwy yw eich arfarnwr a chithau wedi cytuno hynny'n flaenorol cyn defnyddio'r system,

gallwn drefnu sefydlu cyfrif iddo a chysylltu'r ddau ohonoch fel y gall yr arfarnwr gwblhau'r broses yn union fel unrhyw arfarnwr arall.

Rhoi'r holl fyfyrddodau maent wedi'u hysgrifennu o'u nodiadau o arfarniad yn Mars a chytuno arno'n union yr un ffordd.

Felly mae'r ffordd rydych chi'n dewis eich arfarnwr ychydig yn wahanol.

Ond mae'r canlyniadau'n union yr un fath, o fewn y system hon.

Y Swyddog Cyfrifol fel y gwelwch ar yr ochr chwith yma. Mae gan eich arfarnwr gyfrif drwy MARS, mae gan y Swyddog Cyfrifol gyfrif.

Mae eich Timau Ailddilysu gennych chi, mae gan weinyddwyr y Bwrdd Iechyd a'r rheolwr Ailddilysu fynediad i MARS a gwahanol lefelau o fynediad.

Mae gan arweinwyr arfarnu fynediad.

Ac yna mae yna system sicrhau ansawdd, un ddiennw y gallwn gymryd data ohoni a sicrhau ei ansawdd.

Felly beth fyddai'n digwydd unwaith y byddaieich cynnydd ailddilysu gennych hefyd

Mae gan eich Swyddog Cyfrifol fynediad cyfyngedig i'r system a gall wneud argymhelliad i'ch ailddilysu.

Mae ganddo fynediad i'ch crynodebau arfarnu ac unrhyw wybodaeth drwy system y bwrdd iechyd.

Ac mae'n gallu gwneud argymhelliad i'ch ailddilysu neu beidio drwy MARS.

Ac felly, mae'r system yma'n gydamserol gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Felly mae'n cydamseru popeth yn y cefndir bob dydd o wahanol gamau i dderbyn cofrestriad i ddiweddarau cyflwr eich cynnydd ailddilysu.

Felly os byddech yn cael eich ailddilysu byddai hyn yn cydamseru'n awtomatig.

Ac o fewn 24 awr ar ôl i'r Swyddog Cyfrifol wneud yr argymhelliad.

Felly mae hynny'n glir

Felly yr hyn rydych chi'n ei weld yw hyn, fel y dywedais, os ydych chi'n dychmygu eich bod chi wedi cael eich trafodaeth arfarnu, rydych wedi cyfarfod eich arfarnwr a byddwch yn cael gwybod drwy'r cyfeiriad ebost

y gwnaethoch ei roi yn y system am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd yn eich proses.

Felly, er enghraifft byddwch yn cael gwybod bod eich arfarnwr wedi cyflwyno crynodeb eich arfarniad i chi gael golwg arno.

Felly cliciwch ar yr eicon crynodeb yma, eto ni fydd llawer o wybodaeth yma gan mai cyfrif prawf ydyw,

ond gallwch weld y dyddiadau, gwahanol agweddau, os y cytunwyd ai peidio.

Byddai unrhyw fath o adborth gan eich arfarnwr mewn bocs yma.

Gallwch barhau i gysylltu â'r lanlwythiadau rydych wedi'u cynnwys a gallwch weld unrhyw destun rydych wedi'i roi yno.

Ac yna'r nodiadau ychwanegol y bydd eich arfarnwr yn eu hychwanegu, yn amlwg yn y fersiwn fyw bydd yn llawer hirach na hyn. Yna byddwch yn dechrau gweld y bocsys hynny'n troi'n wyrdd gobeithio.

Ac eto, unrhyw sylwadau yma a allai fod gan eich arfarnwr

Felly ar ôl i chi gael golwg dda ar hwn, eto, rydym yn annog meddygon i'w ddarllen yn drylwyr

oherwydd ar ôl i grynodeb meddyg gael ei gyflwyno a'i gytuno

ni allwn wneud unrhyw newidiadau iddo gan fod ganddo god caled ac mae wedi'i gytuno.

Felly gwiriwch bod y wybodaeth i gyd yno a'ch bod chi'n hapus gyda hi. Felly, ar ôl i chi ei gwirio i gyd

a'ch bod chi'n hapus gyda hi, gallwch gau'r bocs hwn yna dewis derbyn neu wrthod y crynodeb oddi tano.

Felly yma mae gennych gyfle i dderbyn, a chyfle i wrthod, pe byddai yna

er enghraifft, adran neu ddwy ar goll a'ch bod am wneud unrhyw newidiadau, bod yna wallau teipiau ynddo.

Unrhyw beth rydych chi am i'ch arfarnwr ei newid. Gallwch ei wrthod yna bydd eich arfarnwr yn cael ei hysbysu,

pe bai angen iddo wneud y newidiadau hynny. Yna bydd y system hon, y broses fach yma'n digwydd eto.

Byddwch yn cael eich hysbysu i'w adolygu yna ei dderbyn.

Iawn. Felly eto, os ydych chi'n mynd i'w wrthod, rydych yn cael eich ysgogi i roi gwybod i'r arfarnwr am y rheswm dros wrthod.

Ond y tro hwn, gan obeithio y byddai popeth yn mynd yn iawn, dwi am ei dderbyn.

Eto, mae yna ddatganiad ar y gwaelod yn dweud y dylech fod yn ymwybodol na ellir gwrthdroi hyn.

Rydym yn eich annog i'w ddarllen yn drylwyr ac unwaith y byddwch chi'n cytuno ar hynny.

Byddwch chi'n cael eich annog i gwblhau arolwg.

Felly, yr hyn a welwch chi yn y cefndir, yw nad ydych yn cael cyfle i droi'n wyrdd gan fod popeth yn ailosod eto,

yn barod i chi baratoi ar gyfer eich arfarniad nesaf y flwyddyn ganlynol. Yna bydd y system yn mynd â chi i arolwg adborth arfarnu.

Felly mae hwn yn arolwg adborth di-enw yr ydym yn casglu data ar ei gyfer ac yn ei adolygu.

bob blwyddyn. Mae hyn yn eich galluogi i roi adborth ar bob agwedd ar yr arfarniad.

Felly, boed yn arfarnwr, y broses, sut rydych chi'n defnyddio MARS, mae gennych chi eich botymau opsiynau.

Felly, fe allwch chi. Gallwch ei sgorio ar sail eich barn.

Ac mae yna ddwy dudalen yma sy'n ein galluogi ni i....bydd yr arfarnwyr yn gallu cael yr adborth hwn yn y pen draw.

Ac ar ôl iddynt wneud ychydig o arfarniadau gallant adolygu eu hadborth eu hunain gan y meddygon maent wedi'u harfarnu

ac mae'n ein galluogi ni i adolygu'r sylwadau i ni allu gwella'n system ni.

System MARS hefyd. Ac er mwyn eich diweddarau, rydym yn diweddarau'r arolwg hwn eto i'w wneud yn fwy cyfredol,

ond bydd yn broses debyg iawn y bydd disgwyl i chi ei chwblhau ar ôl bob arfarniad.

Iawn, dwi'n meddwl ein bod wedi gorffen arddangos y system. I ddechrau pethau, mae systemau MARS yn cael eu darparu gan yr uned cymorth ailwerthuso.

Mae gennym y gallu i gysylltu â thîm y ddesg wasanaeth.

Felly mae gennym ddesg wasanaeth sy'n gweithredu bum diwrnod yr wythnos. Ar sail e-bost yn unig ar hyn o bryd.

Ac os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth ddechrau defnyddio'r system,

Gallwch ddefnyddio'r botwm cysylltu â ni, sy'n ein galluogi i gael rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi.

Rhowch adborth ar y broblem sydd gennych.

Mae'n cael ei anfon yn awtomatig i'n mewnlwch, sef prif fewnlwch MARC a ddarperir gan AaGIC.

Felly o fewn hwnnw, rwy'n mynd i'w gau i lawr yn awr.

Ond pe byddai gennych broblemau fe fydddech chi'n rhoi'r broblem yno, yna mae sŵn ping yn ein mewnlwch ni pan mae'n cyrraedd,

a byddwn yn ymateb o fewn 24 awr fel arfer, ond nid yn cynnwys penwythnosau wrth reswm.

Felly byddwn yn mynd drwy'r system arfarnu.

Felly dyma'r prif ddangosfwrdd y mae'n mynd iddo pan fyddwch chi'n mewngofnodi i rôl y meddyg.

Felly er mwyn dangos i chi, mae'n debyg mai'r cam cyntaf yr hoffem ni annog defnyddwyr i'w wneud yw llenwi'r adran fy manylion, sef y pedwerydd tab i lawr, fy manylion.

Mae'n eithaf hunan-esboniadol. Dyma ble fydddech chi'n rhoi eich cyfeiriad e-bost.

Llenwi eich teitl ac ati, ychwanegwch eich gwybodaeth gysylltu a lleoliad arbenigedd.

Y math yna o beth. Mae'n eithaf pwysig bod y wybodaeth am ble rydych chi'n gweithio yn cael ei diweddarau'n flynyddol. Mae'n rhan o'r cytundeb i sicrhau eich bod chi'n cadw'ch manylion personol a phroffesiynol yn gyfredol bob blwyddyn.

Ac felly, cewch eich annog i wneud hyn bob blwyddyn.

Os ydych yn ychwanegu'ch ysbyty, fe welwch fy mod i wedi ychwanegu uned IVF Caerdydd a'r Fro yma.

Os ydych yn ychwanegu ysbyty arall, efallai eich bod chi'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad.

Neu efallai eich bod yn rhan o'r DVLA.

Fe fydddech chi'n dewis bocsys y gwymplen ac yna bydddech yn cael eich annog i gwblhau'r dyddiadau pan wnaethoch gychwyn.

Os mai dyma'ch swydd gyfredol o hyd,

rydych yn ei adael yn benagored a gallwch ychwanegu hynny ac yna tynnu ysbytai blaenorol os nad ydych chi'n gweithio yn yr ardal honno mwyach.

Neu gallwch eu newid o gwmpas. Cael mwy nag un.

Cael hwn fel eich prif un, er enghraifft. Yna gallwch gadw un arall yno neu ei ddileu.

A beth sy'n digwydd pe baech chi'n ei ddileu? Mae'n mynd i'r archif

Ar yr ail dab.

Iawn fel y dywedais i, fy manylion.

Rydym yn disgwyl i chi ddiweddarau'r rhain bob blwyddyn.

Yr ail dab ar draws yw gweithgareddau.

Testun rhydd yw hwn, tri bocs testun rhydd y gallwch eu llenwi â gwybodaeth os oes gennych chi weithgareddau ychwanegol eraill.

Felly os ydych chi ar alwad gallwch nodi'r wybodaeth.

Mae hyn i gyd yn bwysig i roi gwybodaeth i'ch arfarnwr, i roi rhywfaint o gyd-destun i'ch gwaith, yr hyn rydych chi'n ei wneud.

Felly bydd ganddo syniad da o beth yw eich rôl cyn cyfarfod â chi hyd yn oed os nad yw'n eich nabod.

Eto, bocsys testun pellach i'w llenwi. Os dymunwch.

Ac eto, yr un peth eto, mae'r trydydd bocs yn focs testun rhydd ac yna'r trydydd tab ar draws yn un ar gyfer cynlluniau swyddi

Felly, yn fwy felly, byddai gan y rhai ym maes gofal eilaidd gynlluniau swyddi.

Llun i Sul. Yna gallwch eu llenwi fel y dymunwch.

Ac eto, mae'r wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth i'ch arfarnwr, yn rhoi syniad iddo.

Gallwch lanlwytho'ch cynllun swydd hefyd os hoffech chi, fel atodiad i arbed amser i chi.

Felly wnawn ni symud ymlaen o *my details*, dwi am fynd i'r tab cyntaf i lawr, fy arfarniadau o dan rôl meddyg.

Felly dyma, fel y dywedais, yw'r prif ddangosfwrdd y byddwch chi'n ei weld wrth fewngofnodi

Mae'r dangosfwrdd yn eich ysgogi i fynd i unrhyw le rydych chi ei angen.

Felly, er enghraifft, os yw'n las, mae'n golygu bod angen i chi wneud rhywbeth, ei weithredu.

Felly dyma'r bocs gwybodaeth arfarniad yma, eich dewis o arfarnwr.

Felly rydych yn dewis eich arfarnwr a'ch datganiadau. Mae'r ddau ganlynol yn llwyd gan nad ydynt yn barod i'w gweithredu eto.

Felly y cyntaf yw gwybodaeth arfarnwr, mae'r system ar Mars yn gweithio fel bod gennych chi chwarteri.

Felly'r syniad yw gwneud proses yr arfarniad yn haws.

Rydym wedi rhannu'r holl feddygon yn chwarteri ac yn annog meddygon i gael eu harfarniadau o fewn hynny.

Felly, er enghraifft, mae un fi allan o chwarter heddiw. Rwy'n rhedeg yn hwyr.

A byddai'r system yn eich hysbysu pe byddech chi'n rhedeg yn hwyr ac wedi mynd drosodd.

Felly yn dilyn hynny byddai'r chwarter yn eich annog chi a'ch ysgogi chi i archebu'ch arfarniad a

gydol y system bydd eich arfarnwr yn cael gwybod a bydd y system yn mynd ar ei ôl gydol y broses.

Mae'r allwedd isod yn dweud wrthy'ch bod yna gamau gweithredu.

Mae gennych chi eicon pen, gallwch gymryd camau dilynol.

Yna byddwch chi'n gweld gydol gweminar heddiw bod y tabiau – y bocsys yn troi'n wyrdd wrth i ni gwblhau'r camau gweithredu.

Felly'n ddelfrydol, rydym yn annog meddygon i gwblhau eu gwyboath arfarnu gydol y flwyddyn.

Mae'n ffordd o storio'ch dysgu a'ch DPP ac unrhyw adborth, myfyrdodau, eitemau CDP, ac ati.

Mae'n agored cyn gynted ag y bydd eich arfarniad wedi'i gwblhau am y flwyddyn, bydd eich systemau'n barod i fynd a gallwch roi mwy o wybodaeth.

Felly rwyf wedi llenwi dau o'r templedi hyn i ddechrau.

Felly os byddech chi am ychwanegu templed newydd, fe fydddech chi'n clicio ar y botwm gwyrdd, ychwanegu gwybodaeth, ac yn dewis categori i'w chynnwys ynddo.

Felly, er enghraifft, mae gennym ni adnodd adborth yma y gallwch fewngludo adborth eich cydweithwyr a'ch cleifion.

Felly, heddiw, dyma adborth y claf. I'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn y DVLA.

Mae gennym ni system orbit 360.

System sydd nawr yn adnodd adborth cleifion a chydweithwyr mewnol sydd ar gael i bob meddyg â thrwydded i ymarfer yng Nghymru.

Rwy'n gwybod DVLA bod gennych chi adnodd adborth ar wahân i gydweithwyr a chleifion.

Fodd bynnag, gellir ychwanegu unrhyw wybodaeth, unrhyw PDF, unrhyw adborth arall gyda sylwadau yma.

Gallwch ychwanegu ffeil at y mwyafrif o'n cofnodion arfarnu trwy ei lanlwytho o'ch cyfrifiadur personol,

A gallwch ychwanegu priodoleddau a bennwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer pob arfarniad hefyd.

Felly gallwch ychwanegu gwahanol briodoleddau i bob darn o dystiolaeth a lanlwythwch. Ar waelod pob cofnod mae cyfle i gadw'r hyn rydych wedi'i wneud.

Felly cofiwch gadw bob amser wrth gofnodi. Dyw'r system ddim yn cadw'r wybodaeth yn awtomatig. Mae'n rhaid i chi gadw drwy ddefnyddio'r botwm gwyrdd ar y gwaelod.

Iawn, felly pan fyddwch wedi dechrau llenwi'ch gwybodaeth arfarnu byddwch yn gallu golygu gyda'r eicon glas yma.

Ac fel y gallwch weld, rwyf wedi llenwi hwn o'r blaen. A gallwch chi lanlwytho'ch dogfennau personol chi.

Ac rydym yn annog y dogfennau mwy cyffredin fel rhai Excel a Word.

Mae yna derfyn i ffeiliau, y byddaf yn ei drafod yn fyr yn ddiweddarach. Mae gennych chi gyfleuster storio eithaf sylweddol o tua 200 megabeit.

Felly dim ffeiliau Photoshop os gwelwch chi'n dda. Gan eu bod yn ffeiliau eithaf mawr.

Felly nid yw'r system yn hoffi unrhyw beth anarferol.

Iawn, felly, er enghraifft, mae gennym ni un DPP yma yr wyf wedi dechrau ei llenwi felly gallwch weld fy mod wedi dechrau llenwi'r bocsys testun yma.

Mae gan bob bocs deitl ac mae rhai yn cynnwys gwybodaeth i'ch annog beth i'w llenwi wrth hofran dros y teitl.

Fellydim ond anogwyr yma gyda'r eiconau du.

Gallwch ychwanegu ffeil ychwanegol wrth gwrs. Ac fel y dywedais, bydd y system yn eich galluogi i lanlwytho'r ffeiliau mwyaf cyffredin. Ac fe wnafe i ddewis unrhyw ffeil at y diben hwn, a gallwch weld ei bod yn lanlwytho i'm cyfrif ac yna mae'n rhaid i chi ei hychwanegu.

Iawn a chofiwch roi teitl.

Iawn ac eto, cadwch y cyfan yn y gwaelod. Yna bydd gennych chi hyd at wythnos cyn dyddiad eich arfarniad i fewnbynnu unrhyw wybodaeth, a bryd hynny byddwch yn cael ei cloi allan o'ch cyfrif. Felly gallwch weld bod gennyf nifer o gofnodion yno ac yna dilyn y tab nesaf ymlaen.

Mae eich adran cyfyngiadau gennym ni. Felly eto, rwyf wedi llenwi cwpl o gyfyngiadau yma er mwyn ychwanegu cyfyngiad.

Rydych yn clicio eto ar y bocs gwyrdd a gallwch chwilio yma neu glicio ar y botymau hyn, math o gyfleuster coeden yma.

Ac mae gennym ni Covid 19. Eitem newydd ar y goeden hon.

A gallwch glicio ar y bocsys a ddewiswyd ac yna byddant yn llenwi'r ochr chwith.

Yna, gallwch ehangu hyn os ydych yn dymuno, gallwch glicio ar y botwm nodyn glas ac ychwanegu.

Eto, mae wedi'i osod i chi.

Mae gennych chi eich cyfyngiadau personol, cyfyngiadau'r ysbyty neu wasanaeth.

Eto, bocsys testun rhydd ac eto, ar yr ochr dde a'r ochr chwith, mae'n goeden gwymplen arall.

Yna'r trydydd tab ar draws, dealltwriaeth a myfyrdodau. Mae hwn yn faes mwy myfyriol sy'n eich annog, yn y bocsys cyntaf i

adolygu'r diwrnod cynnydd dros y flwyddyn arfarnu ddiwethaf.

Eto, bocsys gwyrdd os hoffech ddiwygio'r testun hwn.

Yna cadwch unrhyw ddiwygiadau rydych wedi'u gwneud. Yr un nesaf i lawr, anghenion datblygu pellach.

H.y. Amser a neilltuir ar gyfer DPP. Yna ymhellach i lawr, mae gennym gynllun mwy hirdymor sef y CDP.

Felly mae hyn yn edrych ymlaen, i'r dyfodol am rywbeth y mae gennych chi ddiddordeb ei gyflawni yn y dyfodol.

Felly yn yr enghraifft hon, os wnewch chi wneud yr eicon glas,

Rwyf i wedi rhoi fy mod am fod yn arfarnwr yn y pen draw. Mae gen i ddi-ddordeb yn y maes hwn ac rwy'n edrych allan amdano,

pan ddaw'r swydd ar gael. Felly, eto, gallwch roi sawl cofnod yno.

Pe baech chi'n dymuno. Y pedwerydd un ar draws.

Mae gennym ni CDP cyfredol. Nawr, pe byddai gennych arfarniad blaenorol ar Mars, dyma ble

y byddech yn gallu edrych ar beth oeddech chi am ei wneud, beth y cytunwyd arno ar gyfer y 12 mis diwethaf.

A dwi am neidio i rôl y meddyg i ddangos sut fyddai hyn yn edrych. Felly ymddiheuriadau am newid sgriniau yma.

Felly os byddai gennych arfarniad blaenorol ar Mars, byddai gennych destun yma gyda botwm i ddiweddarau'r statws.

Byddai hyn yn datgan wedyn ar gyfer eich arfarniad nesaf a ydych wedi cyflawni'ch eitemau CDP neu beidio.

Byddai'r bocs yma'n ymddangos yma.

Yna gallwch ddatgan a ydych wedi'u cyflawni'n llawn, yn rhannol neu heb wneud o gwbl ac a oes yna dystiolaeth yn eich ffolder gyfredol os yw hynny'n gwneud synnwyr

ac yna mae'n eich galluogi i gau'r ddolen ar yr hyn y gwnaethoch ei gytuno ar arfarniad blaenorol y llynedd.

Iawn, gadewch i ni neidio yn ôl i fy rôl MARS. Y pumed tab ar draws yw'r adran datganiadau.

Felly dyma restr o ddatganiadau blynyddol sydd angen i chi eu gwneud bob blwyddyn yn cwmpasu nifer o feysydd gwahanol.

Felly rwyf wedi cytuno ar ddau. Ond mae angen i chi nodi pob un cyn y gallwch chi gwblhau'ch arfarniad am y flwyddyn.

Felly'r cyntaf yw eich manylion proffesiynol personol.

Yn y bôn, dweud bod eich manylion yn gyfredol ac y dylai'ch arfarniad gwmpasu'ch holl ymarfer.

Felly waeth a oes gennych sawl rôl, dylech ddod â'r holl wybodaeth honno i un arfarniad i'w thrafod gyda'ch arfarnwr.

Felly i gytuno ar hwnnw a'r nesaf i lawr yw cytuno ar ymarfer meddygol da.

Felly mae'n amlwg bod yna sawl darn o destun i'w darllen, mae'ch datganiadau uniondeb gennych chi.

Felly os ydych chi'n anghytuno, mae unrhyw un o'r adrannau hyn mae yn eich annog i gofnodi hynny fel rhywbeth y mae angen i chi ei drafod yn eich arfarniad.

Ac felly, gallwch ddatgan ym mha faes y mae'r cofnod hwn

pe bai gennych rywbeth i'w gyflwyno yn eich arfarniad. Sy'n anghytuno â'r datganiadau hyn.

Felly iechyd eto. O ran yr arfarniad hwn.

Dwi am roi un negyddol i mewn i weld sut fyddai hynny'n gweithio a'r holl rai eraill dwi wedi'u cwblhau cyn gweminar heddiw.

Ac er gwybodaeth. Mae'r un diogelu yn mynd yn ddiodyn i heb ei gwblhau a'r rôl hyfforddiant –

Mae'r maes hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, felly bydd yn newid yn fuan.

Os oes gennych rôl hyfforddi. Iawn ac yna.

Cofiwch gadw'r datganiadau yma.

Iawn. Gadewch i ni ddychwelyd at wybodaeth yr arfarniad, os wnewch chi agor y wybodaeth hon.

Gallwch lawrlwytho unrhyw un o'ch cofnodion a gellir lawrlwytho eich holl arfarniadau fel PDF wedyn pe dymunech.

A'r cam nesaf rydym yn mynd i edrych arno yw'r dudalen cynnydd aiddilysu, eto ar y trydydd tab i lawr.

Felly y dudalen cynnydd ailddilysu sy'n datgan, yn anffodus, nad oes gen i un yma gan nad ydw i'n feddyg.

Ond oes gennych chi ddyddiad ar y gorwel, byddai'n ymddangos ar yr ochr dde yma.

O dan y bocs hanes ailddilysu byddai unrhyw gylchoedd blaenorol a allai fod gennych yn ymddangos yn y colofnau yma.

Fe ddangosaf hyn i chi'n gyflym yn ein canllaw defnyddiwr yma.

Felly eto, dyma sut fyddai'r dyddiad yn edrych yn y gornel dde uchaf.

Os ydych wedi'ch ailddilysu fwy nag unwaith bydd gennych ddyddiadau ailddilysu blaenorol.

Yna, os oes gennych chi arfarniadau blaenorol ar y system fe welwch system tebyg i golofnau yma a fyddai'n dangos y gwahanol agweddau

ar gynnydd eich arfarniad gyda'r gwahanol feysydd rydych wedi'u cwblhau wedi'u nodi mewn gwyrdd.

Ac yna pan mae hyn yn swyddogaeth fyw gallwch weld crynodeb o'ch arfarniad drwy'r eiconau glas hyn yma.

Felly mae'ch holl wybodaeth flaenorol ar gael ar PDF ar y dudalen hon gyda'ch dyddiadau blaenorol.

Fel y gwelwch, rwyf wedi gwneud un neu ddau, rydym wedi cwblhau'r datganiad. Mae hwnnw wedi troi'n wyrdd ac mae cwmpas y gwaith wedi troi'n wyrdd.

Hefyd, eich arfarnwr sy'n cwblhau'r adrannau hyn yn bennaf.

Ar ôl cael eich trafodaeth arfarnu fe fyddai'n gwneud y datganiadau hyn a byddai'r rhan fwyaf o'r eiconau'n troi i'r gwyrdd priodol.

Neu os oes angen rhagor o waith, bydd yn troi'n lliw oren gydag eicon oren bychan, fel y gwelwch yma.

Iawn. Felly os ga i ddychwelyd i fy arfarniadau.

Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen y dangosfwrdd. Yma byddaf yn dangos i chi sut i ddewis arfarnwr.

Os cliciwch chi ar yr eicon yma byddwch yn mynd i restr o arfarnwyr yn eich ardal.

Ac rydym yn annog ein harfarnwyr i gwblhau bywgraffiad.

Felly rhywfaint o wybodaeth am hyn Yr afarnwr a'i argaeledd, er enghraifft, mae Jo yn profi.

Dyma fi mewn bywyd arall. Os gliciwch chi ar y swigen siarad mae'n rhoi ychydig o wybodaeth i chi am yr arfarnwr, pa ddyddiau fyddent ar gael, ble mae'n gweithio ac unrhyw beth arall sy'n eithaf perthnasol i chi.

Ac os ydych chi'n clicio ar yr eicon gallwch weld efallai na fydd ar gael am sawl mis o bosibl.

Iawn, felly, er enghraifft, dwi am ddewis un o'r rhain.

Yna mae'r system yn eich annog i ddewis tri arfarnwr i'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn adnabod eich arfarnwyr o bosibl.

Dwi ddim yn gwybod. Efallai eich bod wedi cytuno i hynny cyn defnyddio'r system. Efallai ddim.

Felly mae'n gadael i chi gael mwy o ddewis. Yn eich annog i gael dau.

Yna gallwch weld eu bod wedi'u llenwi ar yr ochr dde.

Yna mae'n eich annog, yn dilyn hynny, i ddewis mis neu gallwch ddileu'ch arfarnwyr fel y dymunwch.

Cyn cyflwyno. Fel y gwelaf, dwi allan o'r chwarter.

Felly dwi am drïo ei gwblhau cyn gynted â phosibl a chyflwyno fy newisiadau yn y botwm gwyrdd yma.

Ac mae'n eich annog, mae yna lawer o brosesau yn y system i sicrhau eich bod chi'n hapus.

Rydych chi'n siŵr eich bod chi am wneud y dewisiadau hynny ac ymrwymo. Yna mae'n mynd â chi'n awtomatig yn ôl i'ch tudalen a gallwch weld bod y broses ar waith.

Cytuno ar y rheiny. A bydd y system yn eich hysbysu pan fydd eich dewis cyntaf o arfarnwr yn eich derbyn neu'ch gwrthod.

Os ydych yn cael eich gwrthod gan y cyntaf mae'n mynd â chi'n awtomatig i'r nesaf –

Fyddwn i'n dewis Gareth fel fy ail un ac yn y blaen. A bydd yn eich hysbysu.

Felly does dim byd y mae angen i chi ei wneud o ran cymell y system i fynd o'r ail i'r trydydd.

Eto, gallwch ailosod y rhain cyn cytuno ar ddyddiad pe dymunech chi?

Ac eto, gallwch weld bod y trydydd bocs yma o dan datganiadau wedi troi'n wyrdd,

gan fy mod wedi cwblhau rheiny a gallwch weld y bocs statws oddi tano hefyd

Dim ond un tab i roi gwybod amdano i chi yma.

Ar ôl i chi gwblhau arfarniad ar MARS, gallwch weld eich arfarniad blaenorol, fel y dywedais eisoes.

Felly dros amser, rydych yn datblygu, bydd gennych restr o'r rhain, un am bob blwyddyn a byddwch yn gallu lawrlwytho'r crynodeb hwnnw mewn PDF ac edrych arno'n fanwl.

Iawn. Felly dwi am newid cyfrifon nawr.

Cyn gwneud hynny, dwi am ddangos un peth arall i chi yn yr ardal hon. Yr ardal ffeiliau.

Dwi wedi cyfeirio ati eisoes. Mae ganddi derfyn o ddau gan megabeit, felly gallwch weld fy mod ond wedi defnyddio tua 203/204

cilobeit o'm cwota. Felly does dim problem.

Nid yw ar y coch. Ond mae yna feddygon yn cysylltu â ni i ddweud eu bod yn cael trafferth lanlwytho dogfennau.

Rydym yn gweld bod ffeiliau PowerPoint yn tueddu i gymryd llawer o le.

Felly os ydych chi efallai yn lanlwytho'r cyflwyniad rydych wedi'i ddefnyddio ar gyfer rhyw fath o waith clinigol neu addysgu, gallant fod yn ffeiliau cymharol fawr.

Felly byddwch yn ymwybodol o hynny a gallwch newid PowerPoint i fod yn PDF a'i wneud yn llawer llai.

Ac eto, dyma ble mae'ch ffeiliau wedi'u rhestru. Yna gallwch eu dileu

unwaith y bydd eich arfarniad wedi'i gwblhau, fel y gallwch fynd yn ôl ac edrych ar hwn.

A thros y blynyddoedd, bydd hyn yn cronni. Felly o ran bod yn ymwybodol, os ydych chi'n cael trafferth lanlwytho fe fyddwn i'n gwirio'r dudalen hon i ddechrau.

Iawn. Dwi am newid cyfrifon nawr i fy nghyfrif ffug.

Felly dyma gyfrif arall sydd gen i. Yma dwi wedi ychwanegu cyfarfod eisoes ac wedi gwneud cais.

Gallwch weld bod y cyfnod clo wedi mynd yn goch gan mai dyddiad heddiw a welwn ni.

Ac felly. Mae'r cyfnod clo wedi mynd heibio.

Fel y dywedais, wythnos i lanlwytho'ch gwybodaeth.

Ar ôl yr wythnos honno rydych wedi'ch cloi allan o'ch cyfrif. Mae hyn yn rhoi'r gallu i'r arfarnwr gael golwg dda ar eich deunydd arfarnu,

eich cynghori efallai os oes rhywbeth ar goll nad ydych wedi'i gynnwys a'i alluogi

i gael golwg drylwyr ar eich gwybodaeth arfarnu a pharatoi ar ei gyfer.

Ac eto mae hyn – gallwch weld bod y canllaw wedi symud ymlaen.

Felly mae gennych chi wahanol diciau oren a gwyrdd wrth i ni fynd ymlaen.

Iawn, dwi am fynd nôl i fy arfarniadau ac

Ie iawn, dwi am ddangos i chi sut i dderbyn cyfarfod arfarnu. Felly cliciwch ar y botwm, mae'r dyddiad yno, yr 8fed o'r 9fed a heddiw yw hynny.

Yn amlwg byddai hyn ychydig o wythnosau i'r dyfodol. Cliciwch ar y botwm yma.

Ydych chi'n siŵr eich bod am dderbyn y dyddiad a ddewisiwyd. Ydych. Yna bydd y system yn ei newid i wyrdd.

A gallwch weld rwy'n dal dan glo. Ond mae dyddiad y cyfarfod arfarnu wedi'i bennu.

Mae hyn eto yn hysbysu'ch tîm aiddilysu bod gennych chi gyfarfod arfarnu ac felly gallwch fwrw ymlaen â'r cyfarfod.

Fel y dywedais, roeddem am gwblhau'r cylch fel y gallem esgus bod y trafodaethau arfarnu wedi'u cwblhau.

Felly unwaith y byddwch wedi cael eich holl wybodaeth a bod eich cyfrifon wedi'u cloi,

byddech yn mynd ymlaen i gael eich cyfarfod arfarnu gyda'ch arfarnwr.

Weithiau bydd y wybodaeth gan yr arfarnwr ar ffurf copi caled neu gall gyfeirio ati ar y cyfrifiadur o'ch blaen chi.

Ar ôl cael eich cyfarfod arfarnu, eich trafodaeth,

byddech yn mynd i'ch cyfrif ac yn darllen gwybodaeth yr arfarniad ac yn penderfynu i gytuno ar y crynodeb ai peidio.

Rwy'n gwybod bod pethau ychydig yn wahanol i'r rhai ohonoch chi sydd yn y DVLA. Felly dwi'n gwybod bod eich arfarnwyr yn dod o'r tu allan i Gymru a bod gennych chi broses wahanol.

Ond mae hynny'n iawn. Yr hyn yr ydym yn dueddol o'i wneud yw, os ydych chi'n ein hysbysu pwy yw eich arfarnwr a chithau wedi cytuno hynny'n flaenorol cyn defnyddio'r system,

gallwn drefnu sefydlu cyfrif iddo a chysylltu'r ddau ohonoch fel y gall yr arfarnwr gwblhau'r broses yn union fel unrhyw arfarnwr arall.

Rhoi'r holl fyfyrddodau maent wedi'u hysgrifennu o'u nodiadau o arfarniad yn Mars a chytuno arno'n union yr un ffordd.

Felly mae'r ffordd rydych chi'n dewis eich arfarnwr ychydig yn wahanol.

Ond mae'r canlyniadau'n union yr un fath, o fewn y system hon.

Y Swyddog Cyfrifol fel y gwelwch ar yr ochr chwith yma. Mae gan eich arfarnwr gyfrif drwy MARS, mae gan y Swyddog Cyfrifol gyfrif.

Mae eich Timau Ailddilysu gennych chi, mae gan weinyddwyr y Bwrdd Iechyd a'r rheolwr Ailddilysu fynediad i MARS a gwahanol lefelau o fynediad.

Mae gan arweinwyr arfarnu fynediad.

Ac yna mae yna system sicrhau ansawdd, un ddiennw y gallwn gymryd data ohoni a sicrhau ei ansawdd.

Felly beth fyddai'n digwydd unwaith y byddaieich cynnydd ailddilysu gennych hefyd

Mae gan eich Swyddog Cyfrifol fynediad cyfyngedig i'r system a gall wneud argymhelliad i'ch ailddilysu.

Mae ganddo fynediad i'ch crynodebau arfarnu ac unrhyw wybodaeth drwy system y bwrdd iechyd.

Ac mae'n gallu gwneud argymhelliad i'ch ailddilysu neu beidio drwy MARS.

Ac felly, mae'r system yma'n gydamserol gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Felly mae'n cydamseru popeth yn y cefndir bob dydd o wahanol gamau i dderbyn cofrestriad i ddiweddarau cyflwr eich cynnydd ailddilysu.

Felly os byddech yn cael eich ailddilysu byddai hyn yn cydamseru'n awtomatig.

Ac o fewn 24 awr ar ôl i'r Swyddog Cyfrifol wneud yr argymhelliad.

Felly mae hynny'n glir

Felly yr hyn rydych chi'n ei weld yw hyn, fel y dywedais, os ydych chi'n dychmygu eich bod chi wedi cael eich trafodaeth arfarnu, rydych wedi cyfarfod eich arfarnwr a byddwch yn cael gwybod drwy'r cyfeiriad ebost

y gwnaethoch ei roi yn y system am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd yn eich proses.

Felly, er enghraifft byddwch yn cael gwybod bod eich arfarnwr wedi cyflwyno crynodeb eich arfarniad i chi gael golwg arno.

Felly cliciwch ar yr eicon crynodeb yma, eto ni fydd llawer o wybodaeth yma gan mai cyfrif prawf ydyw,

ond gallwch weld y dyddiadau, gwahanol agweddau, os y cytunwyd ai peidio.

Byddai unrhyw fath o adborth gan eich arfarnwr mewn bocs yma.

Gallwch barhau i gysylltu â'r lanlwythiadau rydych wedi'u cynnwys a gallwch weld unrhyw destun rydych wedi'i roi yno.

Ac yna'r nodiadau ychwanegol y bydd eich arfarnwr yn eu hychwanegu, yn amlwg yn y fersiwn fyw bydd yn llawer hirach na hyn. Yna byddwch yn dechrau gweld y bocsys hynny'n troi'n wyrdd gobeithio.

Ac eto, unrhyw sylwadau yma a allai fod gan eich arfarnwr

Felly ar ôl i chi gael golwg dda ar hwn, eto, rydym yn annog meddygon i'w ddarllen yn drylwyr

oherwydd ar ôl i grynoded meddyg gael ei gyflwyno a'i gytuno

ni allwn wneud unrhyw newidiadau iddo gan fod ganddo god caled ac mae wedi'i gytuno.

Felly gwiriwch bod y wybodaeth i gyd yno a'ch bod chi'n hapus gyda hi. Felly, ar ôl i chi ei gwirio i gyd

a'ch bod chi'n hapus gyda hi, gallwch gau'r bocs hwn yna dewis derbyn neu wrthod y crynodeb oddi tano.

Felly yma mae gennych gyfle i dderbyn, a chyfle i wrthod, pe byddai yna

er enghraifft, adran neu ddwy ar goll a'ch bod am wneud unrhyw newidiadau, bod yna wallau teipiau ynddo.

Unrhyw beth rydych chi am i'ch arfarnwr ei newid. Gallwch ei wrthod yna bydd eich arfarnwr yn cael ei hysbysu,

pe bai angen iddo wneud y newidiadau hynny. Yna bydd y system hon, y broses fach yma'n digwydd eto.

Byddwch yn cael eich hysbysu i'w adolygu yna ei dderbyn.

Iawn. Felly eto, os ydych chi'n mynd i'w wrthod, rydych yn cael eich ysgogi i roi gwybod i'r arfarnwr am y rheswm dros wrthod.

Ond y tro hwn, gan obeithio y byddai popeth yn mynd yn iawn, dwi am ei dderbyn.

Eto, mae yna ddatganiad ar y gwaelod yn dweud y dylech fod yn ymwybodol na ellir gwrthdroi hyn.

Rydym yn eich annog i'w ddarllen yn drylwyr ac unwaith y byddwch chi'n cytuno ar hynny.

Byddwch chi'n cael eich annog i gwblhau arolwg.

Felly, yr hyn a welwch chi yn y cefndir, yw nad ydych yn cael cyfle i droi'n wyrdd gan fod popeth yn ailosod eto,

yn barod i chi baratoi ar gyfer eich arfarniad nesaf y flwyddyn ganlynol. Yna bydd y system yn mynd â chi i arolwg adborth arfarnu.

Felly mae hwn yn arolwg adborth di-enw yr ydym yn casglu data ar ei gyfer ac yn ei adolygu.

bob blwyddyn. Mae hyn yn eich galluogi i roi adborth ar bob agwedd ar yr arfarniad.

Felly, boed yn arfarnwr, y broses, sut rydych chi'n defnyddio MARS, mae gennych chi eich botymau opsiynau.

Felly gallwch ei sgorio ar sail eich barn.

Ac mae yna ddwy dudalen yma sy'n ein galluogi ni i....bydd yr arfarnwyr yn gallu cael yr adborth hwn yn y pen draw.

Ac ar ôl iddynt wneud ychydig o arfarniadau gallant adolygu eu hadborth eu hunain gan y meddygon maent wedi'u harfarnu

ac mae'n ein galluogi ni i adolygu'r sylwadau i ni allu gwella'n system ni.

System MARS hefyd. Ac er mwyn eich diweddarau, rydym yn diweddarau'r arolwg hwn eto i'w wneud yn fwy cyfredol,

ond bydd yn broses debyg iawn y bydd disgwyl i chi ei chwblhau ar ôl bob arfarniad.

Iawn, dwi'n meddwl ein bod wedi gorffen arddangos y system.

Dyma ddau o'r meysydd roeddwn i am eu dangos i chi, sydd ar gael.

Felly, os ydych chi'n clicio'r botwm help a chymorth yn MARS, fe fyddwch chi'n cael eich tywys i'n tudalen adnoddau.

Mae yna ddwy lefel o gymorth yma.

Mae gennym mni ganllawiau defnyddiwr QuickStart yma i Feddygon ac Arfarnwyr, yna mae gennym ni fynediad i'n canllaw i'r rhai sy'n cael eu harfarnu yma, yr wyf yn cyfeirio ato gydol y weminar heddiw.

Felly rwy'n mynd â chi i'r brig yn sydyn. Chwyddwch allan er mwyn gallu gweld sut mae'n edrych.

Canllaw defnyddiwr gwyrddlas i feddygon sy'n defnyddio'r system. Ac fel y dywedais o'r blaen, mae'r botwm help a chymorth ar bob tudalen uwchben fan hyn.

Mae pob tudalen a ddefnyddir yn rôl y meddyg yn cynnwys ychydig o destun i egluro sut i'w ddefnyddio.

Rhywfaint o arweiniad a dolen i'n hadnoddau. Ac eto, dyma'n union ble mae'r Canllaw Defnyddiwr yn cael ei gadw hefyd.

Mae yna fideos byr yn dangos sut i wneud gwahanol agweddau'r system.

Rydym wrthi'n diweddarau'r adnoddau hyn,

felly efallai y byddwch chi'n gweld bod y wefan yn diweddarau yn yr ychydig fisoedd nesaf i gynnwys defnydd gwell o swyddogaethedd yno.

Er gwybodaeth, dwi ddim yn meddwl bod gennym ni unrhyw feddygon teulu. Ond y rheswm pam y baglais dros fy ngeiriau'n gynharach oedd bod yna gynllun ychydig yn wahanol o ran cloi.

Felly mae gan feddygon teulu 14 diwrnod o glo ar eu system MARS, sydd, fel y dywedais, yn union run fath â'r system hon ond gyda rhai swyddogaethau ychydig yn wahanol.

Mae'n las. Felly ddylech chi ddim mewngofnodi yno ar ddamwain. Ond os ydych chi'n mewngofnodi i'r dudalen anghywir neu bod eich manylion mewngofnodi ddim yn gweithio

gwiriwch nad yw'r faner ar y brig yn las – os ydyw, rydych chi'n ceisio cael mynediad i un y meddygon teulu, yr un meddygol.

Fel y gwelwch, gwyrdd yw'r lliw ar gyfer gofal eilaidd a defnyddwyr eraill ac mae'r cyfnod clo yn saith diwrnod.

Felly dyna'r gwahaniaeth rhwng y ddau.